OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2787

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

## RHAN VII

### AMRYWIOL

**Cyfyngiadau ar arfer swyddogaethau sy'n arferadwy gan bersonau rhagnodedig**

**17.** At ddibenion adran 77(2) o'r Ddeddf, rhagnodir Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd(**1**).

**Blynyddoedd ariannol**

**18.** At ddibenion paragraff 6(4) o Atodlen 2 i'r Ddeddf pennir y cyfnodau canlynol—

(a) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyntaf, y cyfnod o 1 Mawrth 2001 tan 31 Mawrth 2002;

(b) mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ddilynol y cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Mawrth.

**Gwybodaeth**

**19.** Os yw gwybodaeth y gofynnir iddi gael ei rhoi o dan baragraff (1) o reoliad 3, paragraff (1)(a) o reoliad 8 neu baragraff (1) o reoliad 14 ("y darpariaethau perthnasol") yn wybodaeth sy'n cael ei chadw drwy gyfrwng cyfrifiadur neu ar unrhyw ffurf arall, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal y cyfrifiadur neu'r ddyfais arall sy'n cadw'r wybodaeth honno, neu sydd fel arall yn ymwneud â hwy, drefnu bod yr wybodaeth ar gael, neu gyflwyno'r wybodaeth, ar ffurf weladwy a darllenadwy.

**20.** Os yw person yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd yn unol â pharagraff (1)(a) o reoliad 8 neu'n bresennol gerbron y Comisiynydd yn unol â rheoliad 9, caiff y Comisiynydd dalu i'r person hwnnw, os yw'n credu bod hynny'n briodol—

(a) Symiau mewn perthynas â chostau a dynnwyd yn briodol gan y person, a

(b) Lwfansau yn iawndal am golli eu hamser,

yn unol ag unrhyw raddfeydd, ac o dan unrhyw amodau y gall y Comisiynydd eu pennu.

**Cymhwyso cyfeiriadau at blant**

**21.**—(1) At ddibenion Rhan V o'r Ddeddf mae "child" yn cynnwys person 18 oed neu drosodd sy'n dod o fewn is-adran (1B) o adran 78 o'r Ddeddf a dehonglir cyfeiriadau at "child" neu "children" yn Rhan V o'r Ddeddf ac at "plentyn" neu "plant" yn y Rheoliadau hyn yn unol â hynny.

(**1**) Cafodd Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd ("CAFCASS") ei sefydlu ar 1 Ebrill 2001 o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p. 43).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd cyfeiriadau at blentyn yn is-adran (1) o adran 78 o'r Ddeddf yn cynnwys cyfeiriadau at berson (gan gynnwys plentyn) a oedd ar unrhyw adeg (gan gynnwys adeg cyn i'r paragraff hwn ddod i rym)—

(a) yn blentyn a oedd fel arfer yn preswylio yng Nghymru;

(b) yn blentyn y cafodd gwasanaethau eu darparu iddo neu mewn perthynas ag ef yng Nghymru gan berson a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf, ar ei ran neu o dan drefniadau ag ef; neu

(c) yn blentyn y cafodd gwasanaethau rheoleiddiedig i blant eu darparu iddo neu mewn perthynas ag ef,

a dehonglir cyfeiriadau at "child" neu "children" yn Rhan V o'r Ddeddf ac at "plentyn" neu "plant" yn y Rheoliadau hyn yn unol â hynny.

(3) Rhaid peidio â dehongli cyfeiriadau at "plentyn" neu "plant" a ddehonglir yn unol â pharagraff (1) yn unol â pharagraff (2) hefyd mewn perthynas ag unrhyw amser cyn i baragraff (1) ddod i rym.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

**22.** Wrth arfer ei swyddogaethau rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (**2**) fel y cafodd ei gadarnhau gan y Deyrnas Unedig ac yn ddarostynedig i'r cyfryw gymalau cadw a wnaed gan y Deyrnas Unedig sy'n gymwys ar ddyddiad gwneud y rheoliad hyn.

(**2**) Gweler Papur Gorchymyn 1668